# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 3

TERFYNU POB CONTRACT MEDDIANNAETH (HAWLIAD MEDDIANT GAN LANDLORD)

*Tor contract*

### 157 Tor contract

(1) Os yw deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth yn cyflawni tor contract, caiff y landlord wneud hawliad meddiant ar y sail honno.

(2) Mae adran 209 yn darparu na chaiff y llys wneud gorchymyn adennill meddiant ar y sail honno oni bai ei fod yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny (ac mae rhesymoldeb i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 10).

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 157 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Tor contract yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**I2** A. 157 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 158 Datganiad ffug sy'n darbwyllo'r landlord i wneud contract i'w drin fel tor contract

(1) Os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth yn cael ei ddarbwyllo i wneud y contract drwy ddatganiad ffug perthnasol—

(a) mae deiliad y contract i'w drin fel pe bai wedi torri'r contract meddiannaeth, a

(b) caiff y landlord, felly, wneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 157 (tor contract).

(2) Mae datganiad ffug yn berthnasol os caiff ei wneud yn fwriadol neu'n fyrbwyll gan—

(a) deiliad y contract, neu

(b) person arall sy'n gweithredu ar symbyliad deiliad y contract.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

(a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a

(b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 158 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 158 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 159 Cyfyngiadau ar adran 157

(1) Cyn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 157, rhaid i'r landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu'r sail honno.

(2) Caiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall) ar neu ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod yr adran honno wedi ei thorri.

(3) Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri unrhyw deler arall yn y contract cyn diwedd y cyfnod o fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod y teler hwnnw wedi ei dorri.

(4) Yn y naill achos a'r llall, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

(5) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 159 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I6** A. 159 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Tor contract yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.